

Helo bawb

Er mwyn achub y blaen ar flwyddyn brysur, heriol a chyffrous i ddod, byddwch cystal â chyflawni'r tasgau isod cyn diwedd Awst. Byddant yn rhoi man cychwyn da ar gyfer rhywfaint o'r wybodaeth a'r medrau y byddwch chi'n eu datblygu wrth i'r cwrs fynd rhagddo. Dilynwch yr hyperddolenni yn y ddogfen hon i'r tudalennau gwe perthnasol.

1) CADARNHAU EICH BOD CHI'N DOD!

Anfonwch e-bost ataf ar smccarthy@cardiffmet.ac.uk i gadarnhau eich bod chi o hyd yn dechrau gyda ni ym mis Medi.

2) YCHYDIG O FATHEMATEG

Ewch i adrannau hen bapurau [gwefan CBAC](#). Dilynwch y ddolen yma i ddysgu rhagor am gymhwyster 3 haen bresennol [TGAU Mathemateg i Gymru](#) (Mathemateg a Mathemateg: Rhifedd – 3 Haen) a sut mae pethau wedi newid yn ddiweddar. Mae rhai o hen bapurau'r cymhwyster Mathemateg a Mathemateg: Rhifedd – 3 Haen newydd ar gael ar y safle hefyd. **Argraffwch ac atebwch** y papurau canlynol:

[TGAU HAF 2017 -- MATHEMATEG UNED 1 UWCH - PAPUR CWESTIYNAU](#)

[TGAU HAF 2017 - - MATHEMATEG UNED 2 UWCH - PAPUR CWESTIYNAU](#)

[TGAU HAF 2017 - - MATHEMATEG RHIFEDD UNED 1 UWCH – PAPUR CWESTIYNAU](#)

[TGAU HAF 2017 – MATHEMATEG RHIFEDD UNED 2 UWCH – PAPUR CWESTIYNAU](#)

Wrth i chi weithio drwy'r papurau TGAU, ystyriwch a chofnodwch rai camsyniadau y gallai disgyblion eu cael, yn eich barn chi, gyda rhai o'r cwestiynau. Byddwch yn barod i ddod â'r papurau hyn a'ch syniadau gyda chi ym mis Medi. Mae gwybod am gamsyniadau disgyblion a'u datgelu yn hollbwysig ar gyfer helpu i gynllunio dysgu ac addysgu ym MHOB dosbarth. **Bydd gwybodaeth dda am y pwnc ar y lefel hon yn ffactor hollbwysig i flwyddyn lwyddiannus.**

Hefyd, bu rhai newidiadau i fanylebau Safon Uwch yn ddiweddar, a arnholwyd am y tro cyntaf yn Haf 2018. Edrychwch ar y fanyleb [yma](#) ac ewch i [bapur Mathemateg Bur UG Blwyddyn 12](#) hefyd i wirio'ch gwybodaeth bresennol ar y lefel hon.

3) DARLLEN YCHYDIG

Dechreuwch ddarllen rhywfaint o lyfrau am ddysgu ac addysgu yn yr ysgol uwchradd. Mae'r llyfr ['Effective Teaching' gan Daniel Muijs and David Reynolds](#) yn fan cychwyn cyffredinol da. Bydd darllen Penodau 1 i 7 y llyfr hwn yn ddefnyddiol iawn (2il neu 3ydd argraffiad). Llyfr hawdd ei ddarllen, ymarferol a defnyddiol iawn am ddysgu ac addysgu mathemateg yw ['The Perfect Maths Lesson' gan Ian Loynd](#) – mae Ian yn gweithio yn un o'n hysgolion partner ac mae'n ymwelydd rheolaidd â Met Caerdydd. Bydd y ddau lyfr ar gael yn y llyfrgell ar ôl i chi gofrestru, neu gallwch eu prynu o Amazon Marketplace.

Hefyd, ymglyfarwyddwch â [gwefan Dysgu Cymru](#) a dogfennau canlynol Llywodraeth Cymru ar fathemateg yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru, y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, y Fframwaith Cymhwysedd Digidol a chwricwlwm newydd arfaethedig 'Dyfodol Llwyddiannus' y bwriedir ei roi ar waith yn 2022.

[Rhaglen Astudio Mathemateg y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru](#)

[Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd](#)

[Fframwaith Cymhwysedd Digidol](#)

[Dyfodol Llwyddiannus](#)

[Cwricwlwm Drafft i Gymru – Mathemateg a Rhifedd](#)

4) GWYLIO RHYWFAINT O ADDYSGU MATHEMATEG

Ceisiwch gael mwy o brofiad o arsylwi/cefnogi mewn ysgol uwchradd. Canolbwyntiwch ar sut mae disgyblion yn rhyngweithio â'i gilydd a'r athro, a sut caiff dysgu ei reoli. Bydd unrhyw brofiad ychwanegol a gewch yn werthfawr iawn – gyda dosbarthiadau 'da' a 'heriol'.